

Dŵr Yfed 2021

Cyflenwadau dŵr preifat yng Nghymru

www.dwi.gov.uk



Cyhoeddwyd gan
Drinking Water Inspectorate
Nobel House
17 Smith Square
London
SW1P 3JR

Ffôn: 0300 068 6400

Gwefan: <http://www.dwi.gov.uk>

© Hawlfraint y Goron 2022

E02750083

ISBN: 978-1-911087-45-8

Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol a dylunio yn perthyn i'r Goron.

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logo) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod bod hawlfraint y Goron ar y deunydd a nodi teitl a ffynhonnell y cyhoeddiad.


Cynnwys

Prif benawdau	3
1. Cyflwyniad	6
1.1 Disgrifiad o gyflenwadau preifat	6
1.2 Lleoliadau cyflenwadau preifat	6
1.3 Pwysigrwydd rheoleiddio cyflenwadau preifat	8
1.4 Ansawdd Cyflenwadau Preifat	9
1.5 Arwyddocâd canlyniadau samplau	9
1.6 Gwella ansawdd dŵr drwy asesu risg, rheoli risg a gorfodi	10
Asesiadau risg a hysbysiadau	11
Cyflawni dyletswyddau statudol	12
2. Canfyddiadau manylion data	13
2.1 Ansawdd y dŵr a gyflenwir o gyflenwadau dŵr preifat yng Nghymru:	13
Methiannau Microbiolegol	15
Methiannau eraill	16
2.2 Asesiadau risg	17
2.3 Gorfodi	17
2.4 Rhesymau dros gyflwyno hysbysiadau	18
3. Ardystiad ISO/IEC 17024	19
3.1 Adolygu'r cynllun	21
4. PFAS	22
5. Adolygu gwefannau awdurdodau lleol	23
5.1 Crynodeb o ganfyddiadau cyffredinol archwiliadau 2020 a 2021	23
Manylion Adolygiad 2021	24
Prif ganfyddiadau – Cymru:	25
Y camau nesaf i awdurdodau lleol	27


Atodiadau	28
A – Ymchwil a phrosiectau arbennig	28
Adnodd ar-lein cyflenwadau dŵr preifat	28
Cyfrifiannell profion	29
B – Astudiaethau Achos	29
C – Canllawiau	30

Prif benawdau

Dŵr Yfed 2021 Cyflenwadau dŵr preifat yng Nghymru



Effeithiau negyddol lluosog ar iechyd




Methodd 2.27% o'r samplau yn y profion nicel

Methodd 3.34% o'r samplau yn y profion plwm

Methodd 0.0% o'r samplau a brofwyd â chyrraedd y safon ar gyfer cyfanswm plaleiddiaid

Sut i leihau'r risg o halogi a diogelu iechyd y cyhoedd


Asesu risg er mwyn canfod risgiau a'u rheoli i lefel dderbyniol.



Mae angen cynnal asesiad risg ar 2,784 o gyflenwadau, a dim ond 564 (20.3%) sydd ag asesiad nad yw wedi dod i ben.



Cymryd camau lle bo risg i iechyd. Darganfuwyd un neu fwy o halogiaidau ysgarthol mewn 56 o gyflenwadau, ond ni chyflwynwyd yr un hysbysiad. Mae dros 500 o bobl yn yfed y dŵr hwn.



Gweler gwefan yr Arolygiaeth am gymorth. Newydd yn 2021 – canllawiau chwiliadwy ar y Rheoliadau ac astudiaethau achos chwiliadwy.

1. Cyflwyniad

1.1 Disgrifiad o gyflenwadau preifat

Ystyr cyflenwad dŵr preifat yw unrhyw gyflenwad sy'n cyflenwi dŵr i un neu fwy o eiddo na chaiff ei ddarparu gan gwmni dŵr. Mae tua 3% o'r boblogaeth yng Nghymru yn defnyddio cyflenwad preifat, sy'n gallu deillio o amrywiaeth o darddiadau, gan gynnwys dyfrdyllau, ffynhonnau naturiol a chyrsgiau dŵr.


1.2 Lleoliadau cyflenwadau preifat

Mae cyflenwadau dŵr preifat i'w gweld yn y rhan fwyaf o ranbarthau yng Nghymru. Ceir niferoedd mwy mewn ardaloedd gwledig lle y gall fod yn anodd cysylltu â'r rhwydwaith prif bibellau cyhoeddus. Mae Ffigur 1.1 yn dangos dwysedd y cyflenwadau ledled Cymru:



Ffigur 1.1

Map yn dangos dwysedd cyflenwadau dŵr preifat yng Nghymru



Yn 2021, cofnododd awdurdodau lleol gyfanswm o 14,723 o gyflenwadau preifat yng Nghymru (14,575 yn 2020). Mae 80.6% o'r cyflenwadau hyn yn gwasanaethu un aelwyd, sy'n golygu bod 38.75% o'r boblogaeth yn cael dŵr o gyflenwad preifat.

1.3 Pwysigrwydd rheoleiddio cyflenwadau preifat

Cyflenwad nad yw wedi'i gysylltu â phrif bibellau cyhoeddus Dŵr Cymru neu Hafren Dyfrdwy yng Nghymru yw cyflenwad preifat. Fel arfer, bydd y rhain yn darparu dŵr i tua 3% o'r boblogaeth yng Nghymru, gan gynnwys nid yn unig cyflenwadau domestig i aelwydydd, ond cyflenwadau i safleoedd masnachol megis ffermydd, llety gwely a brecwast, gwestai, clybiau chwaraeon, gweithgynhyrchwyr a busnesau eraill hefyd. Mae'r cyfraniad at yr economi, yn ogystal ag iechyd a lles poblogaeth fach ond sylweddol o bron 67,000 o bobl, yn debygol o fod yn arwyddocaol.

Yr un yw'r safonau a'r egwyddorion rheoleiddio ar gyfer cyflenwadau cyhoeddus a phreifat ac, felly, dylid disgwyl i lefel yr ansawdd fod yr un fath, ond nid felly y mae pethau. Cydnabyddir ers cryn amser fod cyflenwadau cymunedol neu breifat bach yn aml o ansawdd gwaeth, fel sy'n amlwg o niferoedd y dangosyddion llygredd ysgarthol o gymharu â'r cyflenwad prif bibellau cyhoeddus.

Mae'r rhesymau dros hyn yn gymhleth ond, yn rhannol, gall yr adnoddau sy'n angenrheidiol i gyflawni hyn fod yn anghymesur wrth gynnal cyflenwad bach. Er enghraifft, mae gwybodaeth dechnegol ym meysydd daeareg a gwyddor dalgylchoedd, creu dyfrdyllau, peirianeg trin a dosbarthu yn ogystal ag ansawdd dŵr ac asesu risg yn sgiliau hynod arbenigol ac, yn aml, ni fyddant ar gael i ddefnyddwyr cyflenwadau preifat. Gall yr anawsterau hyn gael eu gwaethygu gan drefniadau eiddo a pherchnogaeth, er enghraifft lle nad yw'r tarddiad dan reolaeth y defnyddiwr, neu lle nad yw'n hysbys pwy sy'n gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw, neu lle nad oes neb yn derbyn cyfrifoldeb, gan arwain at esgeulustod. Yn yr achosion hyn, gall y mesurau diogelu angenrheidiol fod yn absennol, megis diffyg gwaith cynnal a chadw digonol ac arferion rheoli gwael.

Caiff cyflenwadau dŵr eu rheoleiddio yn seiliedig ar egwyddor hunanreoleiddio gan berchnogion/defnyddwyr/rheolwyr, a chraffu annibynnol gan y rheoleiddiwr, sef yr awdurdod lleol yn achos cyflenwadau preifat.

Mae staff iechyd yr amgylchedd awdurdodau lleol yn allweddol yn y gwaith o reoleiddio cyflenwadau preifat. Maent yn atebol am ddarganfod a chofrestru'r rhai sy'n hysbys a chynnal asesiadau risg mewn perthynas ag ansawdd a digonolrwydd dŵr. Mae asesiadau risg yn hanfodol er mwyn canfod risgiau, a phenderfynu sut y gellid arsylwi arnynt a'u rheoli drwy gynllun i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn helpu defnyddwyr i feithrin gwybodaeth i allu rheoli cyflenwadau mewn modd diogel, a gwneud gwelliannau lle bo angen i liniaru unrhyw risgiau i ansawdd dŵr a gaiff eu canfod.


Wrth i her cynhesu byd-eang dynhau ei gafael ar gyflenwadau dŵr digonol, daw'n gliriach fyth pa mor fregus yw rhai cyflenwadau dŵr preifat, ac mae hyn yn amlwg o'r niferoedd cynyddol sy'n sychu mewn cyfnodau o sychder. Dylai asesiadau risg adnabod y cyflenwadau hyn a dylid rhoi cynlluniau wrth gefn ar waith. Wrth i'r cwmnïau dŵr ddechrau gweithio ar y cynlluniau busnes ar gyfer Cyfnod Rheoli Asedau 8, dylai fod deialog rhyngddynt ac awdurdodau lleol er mwyn ystyried cysylltiadau tro cyntaf.

1.4 Ansawdd Cyflenwadau Preifat

Yn 2021, gwelwyd bod 4.14% (893) o'r samplau mewn 21,557 o brofion gan yr awdurdodau lleol yng Nghymru wedi methu â chyrraedd y safonau microbiolegol a ffisegol-gemegol ar gyfer dihalogrwydd. Oherwydd amgylchiadau eithriadol 2020, cymerodd awdurdodau lleol 46% yn llai o samplau o gymharu â 2019. Mae'n galonogol nodi bod niferoedd y samplau wedi cynyddu i 21,557 yn 2021, ond mae hyn yn dal i fod 7264, neu 25%, yn llai na 2019, sy'n dangos bod gwaith i'w wneud o hyd er mwyn dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig. Mae Ffigur 1.2 yn dangos bod nifer y profion lle y methwyd â chyrraedd y safonau rheoleiddio wedi lleihau ar y cyfan.

Ffigur 1.2

Canran y profion lle y methwyd â chyrraedd y safonau ar gyfer dihalogrwydd a nifer y profion




1.5 Arwyddocâd canlyniadau samplau

Dangosodd 7.6% o'r profion yng Nghymru yn ystod 2021 halogiad ysgarthol, a gwelwyd bod 7.8% o'r samplau yn cynnwys *E. coli* a bod 7.4% yn cynnwys Enterococci. Mewn carthion y mae'r organebau hyn i'w gweld bron bob amser, sy'n dangos perygl posibl i iechyd y rhai sy'n yfed y dŵr hwn.

Mae canran y samplau a gasglwyd o gyflenwadau y gwelwyd eu bod wedi'u halogi gan *E. coli* ac Enterococci, yn y cyfnod rhwng 2010 a 2021, i'w gweld yn Ffigur 1.3:

Ffigur 1.3

Canran y cyflenwadau a samplwyd yn 2010-21 y gwelwyd eu bod yn cynnwys *E. coli* neu Enterococci



Mae Ffigur 1.3 yn dangos tuedd gyffredinol o welliant yn nifer y cyflenwadau a samplwyd yn 2021 ac y gwelwyd eu bod yn cynnwys *E. coli* neu Enterococci, ond mae hyn mewn cyd-destun o amrywiadau o ran niferoedd samplau dros y pedair neu bum mlynedd diwethaf ac amrywiadau tebyg o ran nifer y methiannau, y gall niferoedd y samplau a'r safleoedd lle y cawsant eu cymryd fod wedi dylanwadu arnynt. Mae adio niferoedd defnyddwyr y cyflenwadau preifat lle y darganfuwyd *E. coli* neu enterococci yn gwneud cyfanswm o 240 o gyflenwadau lle y gallai defnyddwyr fod wedi dod i gysylltiad â chyflenwad lle roedd halogiad ysgarthol wedi cael ei weld yn eu dŵr yfed. Mae'r nifer hwn yn sylweddol.

1.6 Gwella ansawdd dŵr drwy asesu risg, rheoli risg a gorfodi

Un o egwyddorion allweddol y Rheoliadau yw cynnal asesiad risg er mwyn canfod a oes risg bosibl o gyflenwi dŵr a allai fod yn beryglus i iechyd pobl. Mae hwn yn ddull gweithredu system gyfan o'r tarddiad i'r tap drwy gydol oes cyflenwad dŵr preifat, gan gynnwys ei weithrediad. Mae'r rheoliadau wedi datblygu o'r fethodoleg seiliedig ar gydymffurfiaeth o fonitro'r pwynt terfyn, i leihau'r ddibyniaeth ar sampl a all fod mor anaml ag unwaith bob pum mlynedd, heb fawr ddim budd o ran rhoi sicrwydd bod cyflenwad yn ddiogel ac yn sicr. Mae asesiadau risg yn ddull rhagweithiol o ganfod y risgiau, sy'n aml yn weladwy i asesydd hyfforddedig a chymwys, gan arwain at gymryd camau syml i roi dull rheoli ar waith.

Daw pwysigrwydd asesu risg yn fwy amlwg o hyn ymlaen wrth i gyflenwadau gyrraedd y pwynt lle mae gwerth tair blynedd o ganlyniadau samplau a all olygu bod y cyflenwad yn gymwys ar gyfer lleihau amllder samplu. Pan fydd samplu'n digwydd mor anaml â phosibl, asesu risg fydd y prif ddull o ganfod a lliniaru problemau ansawdd a digonolrwydd.

Samplu ar y pwynt defnyddio fydd yn chwarae rhan monitro pan gaiff ei ddefnyddio i fesur effeithiolrwydd yn dilyn asesiad risg, neu'n ehangach i fesur gwelliant cyffredinol, neu fel arall, mewn perthynas â strategaeth ymyrryd.

Rhaid i bob awdurdod lleol gynnal adolygiad neu asesiad risg ar gyfer pob system cyflenwi dŵr preifat yn ei ardal, o leiaf unwaith bob pum mlynedd neu'n amlach na hynny os ystyrir bod y cyflenwad yn peri risg.

Mae'r Arolygiaeth wedi datblygu cyfres o adnoddau asesu risg er mwyn helpu awdurdodau lleol i gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan reoliad 6. Mae'r rhain i'w gweld ar dudalen we asesu risg yr Arolygiaeth. Mae tîm wedi cael ei sefydlu yn Microsoft Teams er mwyn hwyluso hyfforddiant ac mae fideos ar gael drwy'r grŵp hwn.

Mae awdurdodau lleol yn cyflwyno gwybodaeth am asesiadau risg a champau gorfodi i'r Arolygiaeth mewn dwy ffordd. Yn y datganiad data blynyddol, mae awdurdodau lleol yn cyflwyno gwybodaeth am bob cyflenwad sydd ar eu cofnodion, gan gynnwys dyddiad pan gynhaliwyd asesiad risg ac a gyflwynwyd hysbysiad. Mae hyn yn cwmpasu presenoldeb neu absenoldeb asesiad risg neu hysbysiad. Er mwyn bodloni gofynion y Rheoliadau yn llawn, dylai awdurdodau lleol, yn ychwanegol at hyn a thrwy gydol y flwyddyn, gyflwyno crynodebau o asesiadau risg i'r Arolygiaeth, yn ogystal â chopiau o'r hysbysiadau a gyflwynwyd. Bob blwyddyn, nid yw'r niferoedd yn y datganiadau data blynyddol yn cyfateb i nifer yr eitemau a gafwyd, gyda phrinder difrifol o grynodedbau o asesiadau risg a hysbysiadau'n cael eu cyflwyno.

Asesiadau risg a hysbysiadau

Os bydd unrhyw gyflenwad dŵr preifat y bwriedir i bobl ei ddefnyddio yn achosi perygl posibl i iechyd pobl, rhaid i awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad rheoleiddio i unrhyw bersonau neu'r holl bersonau sy'n ymwneud â'r cyflenwad, mewn ffordd y cred yr awdurdod lleol ei bod yn berthnasol, fel perchennog, meddiannydd neu unrhyw un arall sy'n rheoli'r cyflenwad cyfan neu ran ohono, yn dibynnu ar yr achos a'r mesur lliniaru priodol sy'n ofynnol. Y pwynt allweddol yw diogelu iechyd y cyhoedd, felly mae'n hanfodol gweithredu'n brydlon.

Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried yr asesiad risg, gan gynnwys yr holl amgylchiadau lleol perthnasol, unrhyw gyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, a threfniadau lleol sy'n benodol i'r safle a chyfamodau neu weithredoedd sy'n pennu cyfrifoldebau am agweddau penodol ar y cyflenwad neu'r gwaith o'i reoli.

Ledled Cymru, nifer y cyflenwadau preifat a oedd wedi bod yn destun asesiad risg yn ystod y pum mlynedd blaenorol oedd 925, sef 33% o'r holl gyflenwadau preifat perthnasol. O gymharu â

Dŵr Yfed 2021 Cyflenwadau dŵr preifat yng Nghymru

2020, mae'r data'n dangos bod angen cynnal asesiad risg ar gyfer 2784 o gyflenwadau yn 2021, o gymharu â 1946 y flwyddyn flaenorol. Mae nifer gwirioneddol y cyflenwadau sydd ag asesiad risg dilys wedi lleihau ers 2020, ac mae'n debygol mai'r ffaith na chaiff asesiadau risg eu hadolygu ar ôl pum mlynedd yw'r rheswm dros hyn. Os na fydd awdurdodau lleol yn cynnal asesiadau risg tro cyntaf ac adolygiadau o asesiadau risg yn gyflymach, bydd y darlun hwn yn parhau i ddirywio, gan olygu y daw mwy o ddefnyddwyr i gysylltiad â lefelau anhysbys o risgiau o ran ansawdd a digonolrwydd.

Yn 2021, lle y cymerwyd sampl ar gyfer *E. coli*, canfuwyd y dangosydd halogiad ysgarthol hwn mewn 94 o gyflenwadau heb asesiad risg neu lle nad oedd asesiad risg wedi cael ei gynnal yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae'n siomedig bod canlyniad sampl wedi datgelu'r halogiad yn yr achosion hyn oherwydd, yn y cyflenwadau hyn, cyn i *E. coli* gael ei ganfod, mae'r defnyddiwr ar ei fwyaf agored i niwed am nad yw'n amau dim ac ni all gymryd camau i ddiogelu ei iechyd ei hun. Yr arfer orau yw cynnal asesiad risg i ganfod ffynonellau halogiad a ffyrdd i mewn i'r cyflenwad. Dylai'r dull hwn ganfod yr holl halogyddion posibl, heb orfod dibynnu ar ganlyniadau hapsampl na ellir sicrhau y bydd yn canfod yr holl halogyddion ar y pwynt lle y caiff y sampl ei chymryd. Y testun pryder mwyaf yw, pan gaiff samplau eu cymryd yn absenoldeb asesiad risg, y bydd y defnyddiwr yn parhau i yfed y dŵr a'i ddefnyddio i goginio tra bydd y samplau'n cael eu dadansoddi.

Cyflawni dyletswyddau statudol

Hon yw'r 12fed flwyddyn o gyflwyno adroddiadau yn unol â'r fframwaith rheoleiddio hwn, ac nid yw awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol, sydd â'r nod o ddiogelu iechyd y cyhoedd, yn llawn.

Er mwyn deall cyflwr cyflenwadau preifat yng Nghymru, rhaid i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth a data. Yn ei dro, mae dadansoddi'r wybodaeth hon yn golygu y gall adroddiadau cenedlaethol lywio newid polisi mewn ymgais i wella ansawdd cyflenwadau preifat. Fodd bynnag, mae hyn wedi cael ei lesteirio am fod data samplau, crynodebau o asesiadau risg a hysbysiadau a gyflwynwyd wedi cael eu darparu'n hwyr i'r Arolygiaeth, os o gwbl.

Er mwyn datrys y broblem hon a moderneiddio'r adnodd asesu risg a ddarperir i awdurdodau lleol, mae'r Arolygiaeth wedi comisiynu system ar-lein newydd a fydd yn cymryd lle'r adnoddau asesu risg Excel, a rhannau o'r gofynion cyflwyno gwybodaeth. Mae tîm wedi cael ei sefydlu yn Microsoft Teams er mwyn cyflwyno'r system newydd a rhoi hyfforddiant yn ystod 2022. Os hoffech fod yn rhan o'r tîm Microsoft Teams hwn, e-bostiwch dwi.enquiries@defra.gov.uk.

2. Canfyddiadau

Yn ystod 2021, casglodd yr Arolygiaeth ddata drwy'r datganiad data blynyddol, sy'n ofyniad adrodd statudol ar awdurdodau lleol

2.1 Ansawdd y dŵr a gyflenwir o gyflenwadau dŵr preifat yng Nghymru:


O dan reoliad 16 o'r Rheoliadau, rhaid i awdurdodau lleol gadw cofnodion o bob cyflenwad preifat yn ei ardal a'u cyflwyno i'r Arolygiaeth erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn.

Ar gyfer blwyddyn adrodd 2021, cyflwynwyd cofnodion gan bob un o'r 22 awdurdod lleol.

Yn 2021, dadansoddodd awdurdodau lleol 21,558 o samplau o gyflenwadau dŵr preifat. Mae hyn 37.7% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol ond mae'r gwaith samplu yn dal yn is na'r lefelau a welwyd cyn y pandemig, ac yn cyfateb i'r lefelau a welwyd yn 2013. Mae Ffigur 2.1 yn dangos cynnydd cyffredinol yn nifer y samplau a gymerwyd ers 2010, a'r lleihad syfrdanol yn ystod 2020 a briodolir i effaith y pandemig.

Ffigur 2.1

Nifer y profion rhwng 2010 a 2021



Tabl 1

Crynodeb o nifer y samplau a fethodd brofion am amrywiaeth o bamedrau microbiolegol a chemegol.

Paramedrau microbiolegol	
<i>E. coli</i>	7.8%
Bacteria Coliform	15.5%
Enterococci	7.4%
<i>Clostridium perfringens</i>	5.0%
Paramedrau Cemegol	
Arogl	1.2%
Blas	1.9%
Manganîs	8.5%
Haearn	3.8%
Alwminiwm	1.8%
Afloywder	1.7%
Lliw	1.2%
Plwm	3.3%
Nicel	2.3%
Nitrad	1.7%
Plaleiddiaid	0%
Fflworid	0%
Eraill	3.2%

Methiannau Microbiolegol

Mae canfod micro-organebau dangosol penodol yn golygu bod cyflenwad wedi'i halogi. Pan gaiff *E. coli*, enterococci ac, i raddau llai, *Clostridium perfringens* eu canfod, mae hyn yn awgrymu y gall yr halogiad ddeillio o garthion. Bydd carthion yn aml yn cynnwys micro-organebau gan gynnwys bacteria, feirysau a pharasitiaid sy'n niweidiol i iechyd a, phan gaiff dangosydd ysgarthol ei ddarganfod, ni ddylid defnyddio'r dŵr.

Mae Tabl 1 yn dangos bod bron 2 o bob 25 o gyflenwadau yng Nghymru yn 2021 yn anaddas i'w defnyddio o bosibl ac yn peri risg i iechyd, am eu bod yn cynnwys *E. coli*. Er nad yw coliformau bob amser yn ddangosydd uniongyrchol o halogiad ysgarthol, maent yn dal i ddangos bod ffordd i halogyddion fynd i mewn i'r cyflenwad ac nad yw'r prosesau trin dŵr yn dihalogi'r dŵr. Gwelwyd hyn mewn mwy nag 1 o bob 7 sampl. Mae'n hollbwysig diogelu cyflenwadau rhag cael eu halogi er

Dŵr Yfed 2021 Cyflenwadau dŵr preifat yng Nghymru

mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Pe gwelid bod cyflenwad yn cynnwys deunydd ysgarthol, byddai disgwyl i'r awdurdod lleol ymchwilio i hynny.

Dylai'r awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad gorfodi o dan reoliad 20 i'w gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol roi mesurau byrdymor ar waith i ddiogelu iechyd a gwneud gwelliannau yn y tymor hwy i'r cyflenwad er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w yfed.

Methiannau eraill

Gallai methiannau blas ac arogl gael eu hachosi gan ansawdd y dŵr o'r tarddiad, neu ddatblygu wrth i ddŵr lifo drwy'r system ddosbarthu. Gall y ffordd y bydd defnyddwyr yn disgrifio'r blas neu'r arogl helpu i ganfod yr achos, gyda disgrifiadau megis 'pridd' neu 'lwydni' yn cyfeirio at broblemau algaidd posibl yn y dŵr o'r tarddiad a 'pren/naddion pensil' yn awgrymu presenoldeb pibellau alcathen du, er enghraifft.

Cafodd plwm ei ganfod mewn 3.3% o'r profion, a nicel mewn 2.3%. Yn achos plwm, mae hyn yn dangos cynnydd o gymharu â 2.1% yn 2020. Mae plwm yn niwrowenwyn sy'n effeithio'n arbennig ar blant, a gall arwain at effeithiau ar iechyd oedolion gan gynnwys clefyd cronig yr arenau, cynnydd mewn pwysedd gwaed a chlefyd cardiofasgwlaidd. Os caiff plwm ei ganfod ar lefel uwch na'r safon, rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno hysbysiad rheoliad 20 er mwyn sicrhau y caiff camau eu cymryd i ddiogelu iechyd defnyddwyr. Yr ateb hirdymor mwyaf cadarn yw cael gwared ar bibellau plwm. Y rheswm mwyaf cyffredin dros ganfod nicel yw ffitiadau domestig plât nicel megis tapiau. Weithiau, nid yw'r ffynhonnell mor amlwg a gallai'r broblem ddeillio o gymysgwyr o dan y sinc a rheolyddion tymheredd. Hefyd, dylid cynghori defnyddwyr i osod ffitiadau newydd yn lle'r rhain pan fethir â chyrraedd y safon.

Gellir gweld bod haearn wedi methu mewn 3.8% o'r profion, manganis mewn 8.5%, ac alwminiwm mewn 1.8%. Mae pob un o'r metelau hyn i'w cael yn naturiol mewn dyfroedd tarddiad. Dylai awdurdodau lleol ymgynghori ag UKHSA er mwyn penderfynu a yw crynodiad y metelau hyn yn achosi perygl uniongyrchol i iechyd ac, os felly, gyflwyno hysbysiad rheoliad 20. Os penderfynir nad yw presenoldeb y metelau hyn yn achosi perygl posibl i iechyd, gall awdurdodau lleol weithredu o dan adran 80 o hyd er mwyn gorfodi'r personau perthnasol i sicrhau bod y cyflenwad yn ddihalog ac yn dderbyniol.

Gwelir bod afloywder wedi cael ei ddarganfod mewn 1.7% o'r profion, a lliw mewn 1.2%. Gall afloywder leihau effeithiolrwydd prosesau diheintio, felly os canfyddir lefel o afloywder sy'n uwch na'r safon, dylid cynnal ymchwiliad i ddarganfod yr achos, ac yna gymryd camau priodol o dan reoliad 20 neu 80 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (y Ddeddf) er mwyn gwneud gwelliannau. Fel arfer, caiff lliw ei ganfod o ganlyniad i gyfansoddion sy'n deillio o ddalgyloch y dyfroedd tarddiad, a gellir cael gwared arno gan ddefnyddio prosesau trin addas.

2.2 Asesiadau risg

Yn 2021, canran y cyflenwadau preifat sydd ag asesiad risg cyfredol yw:

- Systemau dosbarthu preifat – 1%.
- Defnydd mawr, masnachol a chyhoeddus – 24%.
- Cyflenwadau bach a'r rhai sy'n rhan o denantiaeth ddomestig – 17%.
- Dim ond ar gais y perchennog y caiff asesiad risg ei gynnal ar gyfer anheddau un cyflenwad diddeiliad, ac mae asesiad wedi cael ei gynnal ar gyfer 18% ohonynt.

Mae angen cynnal asesiad risg ar gyfanswm o 2,784 o gyflenwadau, a dim ond 564 (20.3%) sydd ag asesiad nad yw wedi dod i ben. Ar gyfer pob math o gyflenwad heblaw cyflenwadau unigol, bu'n ofynnol i awdurdodau lleol gwblhau asesiadau risg ers 2010. Mae'n destun pryder bod cyfran sylweddol (12.9%) yn dal i fod heb asesiad risg cyfredol, a hynny 10 mlynedd ar ôl i'r gofyniad hwn gael ei gyflwyno, a bod ffigur difrifol, sef 66.7%, nad ydynt erioed wedi cael asesiad risg, lle nad oes gan y defnyddwyr unrhyw syniad y gall eu cyflenwad gynnwys halogiad ysgarthol.

Yn 2017, yn sgil newid i'r rheoliadau yng Nghymru, cyflwynwyd y gofyniad i awdurdodau lleol roi crynodeb o ganlyniadau asesiadau risg i Weinidogion Cymru (yn ymarferol, i'r Arolygiaeth), o fewn 12 mis ar ôl cynnal yr asesiad. Yn 2021, cafodd yr Arolygiaeth 45 o grynodedau o asesiadau risg gan un awdurdod lleol, sef Cyngor Sir Powys. Mae hyn 18% yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Y gred yn wreiddiol oedd bod hyn mewn ymateb i gyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig, ond roedd disgwyl y byddai rhywfaint o adferiad yn cael ei nodi yn y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'n siomedig nad yw 21 allan o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi bodloni eu gofynion adrodd statudol mewn perthynas ag asesiadau risg yn ystod 2021.

2.3 Gorfodi

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol anfon hysbysiadau a gyflwynwyd o dan y ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru (yn ymarferol, i'r Arolygiaeth).

Yn 2021, cafodd yr Arolygiaeth 11 o hysbysiadau a gyflwynwyd o dan reoliad 20 o'r rheoliadau, ond roedd y data a roddwyd yn dangos bod 131 wedi cael eu cyflwyno. Cyflwynwyd chwe hysbysiad o dan adran 80 o'r Ddeddf, ond dim ond un o'r rhain a ddaeth i law. Dim ond un awdurdod lleol a gyflawnodd ei ddyletswydd i roi gwybod i'r Arolygiaeth am hysbysiadau – Cyngor Sir Powys.

Nid oes modd adrodd yn llawn ar hysbysiadau pan fo 87% heb gael eu cofnodi, ac mae'n siomedig iawn bod y ganran a gofnodwyd wedi gostwng yn sylweddol o gymharu â 38% yn 2020. Serch hynny, mae crynodeb o'r wybodaeth sy'n weddill, fel a ganlyn, wedi cael ei ddarparu.

Cyflwynodd awdurdodau lleol 131 o hysbysiadau rheoliad 20 yn 2021 lle roedd y dŵr yn achosi perygl posibl i iechyd pobl. Fodd bynnag, yn 2021, canfuwyd halogiad ysgarthol mewn samplau

Dŵr Yfed 2021 Cyflenwadau dŵr preifat yng Nghymru

mewn tua 1217 o gyflenwadau. Mae hyn yn dangos bod camau i ddiogelu iechyd defnyddwyr wedi cael eu cymryd mewn llai nag 11% o'r achosion. Pan fydd halogiad yn bresennol, bydd angen cymryd camau bob amser i ddiogelu defnyddwyr ac, yn y tymor hwy, i wella cyflenwadau dŵr preifat yn gyffredinol. Os bydd perygl posibl i iechyd pobl, rhaid i awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad.

Unwaith eto, mae'n siomedig nad yw 21 allan o'r 22 awdurdod lleol wedi bodloni eu gofynion adrodd statudol. Hoffai'r Arolygiaeth ddiolch i Gyngor Sir Powys am gyflawni'r ddyletswydd hon.

2.4 Rhesymau dros gyflwyno hysbysiadau

Yn hanesyddol, caiff y rhan fwyaf o hysbysiadau eu cyflwyno mewn ymateb i fethu â chyrraedd safon ficrobiolegol, gyda lleiafrif bach iawn am fethu â chyrraedd safonau eraill. Nid oedd eleni'n eithriad i hynny, ac roedd 7 o'r 11 o hysbysiadau a rannwyd â'r Arolygiaeth wedi cael eu cyflwyno am fethu â chyrraedd safonau microbiolegol. Cyflwynwyd pedwar mewn ymateb i fethu â chyrraedd y safon ar gyfer nitrad. Ni chyflwynwyd yr un hysbysiad ar gyflenwadau yr ystyriwyd eu bod yn peri 'risg i iechyd' ar ôl cwblhau asesiad risg. Ethos y Rheoliadau yw cynnal asesiadau risg rhagweithiol er mwyn atal methiannau a risg i iechyd rhag digwydd yn y lle cyntaf. Ymddengys o hyd mai ymateb i ganlyniadau samplau a wna awdurdodau lleol yn bennaf, yn hytrach na datrys y problemau sy'n golygu y byddai'r sampl yn methu. Nod defnyddio asesiadau risg rhagweithiol ac, os bydd angen, hysbysiad yn y cyd-destun hwn, yw diogelu defnyddwyr cyn i rywbeth ddigwydd fel eu bod yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn gallu bod yn gyfrifol am ddiogelu eu hiechyd eu hunain.

Dim ond chwe hysbysiad adran 80 a gyflwynwyd yn 2021. Un o'r rhain a rannwyd â'r Arolygiaeth.




3. Ardystiad ISO/IEC

CATG yw'r corff dynodedig sy'n hyfforddi ac yn asesu unigolion sydd am gael eu hardystio i samplu cyflenwadau dŵr preifat. Caiff y broses ei hachredu gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS) yn unol â safon ISO/IEC 17024. Perchennog y Cynllun yw'r Arolygiaeth, sy'n cynnal llawlyfr gweithdrefnau samplu sy'n sail i'r Cynllun hwn.

Ar ôl dechrau araf iawn i'r gwaith o ardystio samplwyr, a lesteiriwyd gan y pandemig yn 2020, gwnaeth niferoedd y sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd, a'r samplwyr a ardystiwyd, gynyddu yn 2021. Mae Ffigur 3.1 isod yn dangos y cynnydd a wnaed yn 2021.

Ffigur 3.1

Sesiynau hyfforddi'r Cynllun



Dŵr Yfed 2021 Cyflenwadau dŵr preifat yng Nghymru

Yr hyn sy'n peri pryder yw mai dim ond 38 allan o'r 75 o samplwyr a hyfforddwyd ac a aseswyd yn 2020 a 2021 a gafodd dystysgrifau. Nid oedd y samplwyr a oedd yn weddill wedi cyflwyno eu llawlyfr gweithdrefnau samplu na'u hawdurdodiad i samplu, sef y cam olaf yn y broses ardystio. Bydd yr Arolygiaeth yn archwilio'r mater hwn gyda Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyflenwadau Dŵr Preifat Partneriaeth Iechyd Dŵr Cymru.

Mae Ffigur 3.1 yn dangos bod y gwaith o ardystio samplwyr wedi arafu yn ystod chwarter cyntaf 2022 o gymharu â 2021. Hoffem atgoffa pob awdurdod lleol bod ardystio yn ofynnol ers 20 Tachwedd 2019, ac felly rydym yn gobeithio y bydd y gwaith hwn yn cyflymu drwy weddill 2022, er mwyn ei gwblhau ym mhob awdurdod lleol ledled Cymru.



3.1 Adolygu'r Cynllun

Dechreuodd yr Arolygiaeth gynnal yr adolygiad cyntaf o'r Cynllun yn 2021, a chaiff fersiynau newydd o Ddogfen y Cynllun a Llawlyfr Samplu'r Cynllun eu cyhoeddi tua'r un pryd â'r adroddiad blynyddol hwn. Ceisiwyd adborth gan yr holl brif randdeiliaid, gan gynnwys CATG, awdurdodau lleol, UKAS, yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), a chwmnïau dŵr. Daeth yr adborth hwn i law, a chafodd dwy ddogfen y Cynllun eu diweddarau i gynnwys newidiadau a fyddai'n sicrhau gwelliannau. Un o'r newidiadau yw estyn cyfnod adolygu'r Cynllun i unwaith bob tair blynedd.

Fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun, yn 2021 ac ar ddechrau 2022 aeth arolygwyr i ddwy sesiwn hyfforddi ac asesu ar gyfer darpar samplwyr a gynhaliwyd gan CATG i fodloni eu hunain bod y broses o hyfforddi ac asesu gwaith samplu yn unol â'r dulliau yn eu llawlyfr yn ddigon helaeth a chywir.

Staff awdurdodau lleol oedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr ar yr achlysuron hyn, ond roedd rhai yn gweithio i sefydliadau masnachol sy'n cymryd samplau ar ran awdurdodau lleol. Roedd hyn yn rhan o'r adolygiad cyntaf o'r Cynllun a'r llawlyfr gweithdrefnau samplu ers iddynt gael eu sefydlu.

Ar y cyfan, roedd yr arolygwyr yn credu bod y broses hyfforddi ac asesu yn foddhaol, a dim ond un awgrym ar gyfer gwella a wnaed, sef y gellid cynnwys cyfle i'r cyfranogwyr ddangos bod ganddynt ddealltwriaeth ddigonol o'r broses o gasglu o leiaf un math o sampl cemeg a'r dilyniant samplu cywir.

Roedd yr arolygwyr o'r farn bod profiad samplu'r cyfranogwyr y gwnaethant gwrdd â nhw yn amrywio'n fawr, gyda rhai wedi bod yn cymryd samplau ers blynyddoedd lawer, ac eraill yn newydd-ddyfodiaid i faes rheoleiddio cyflenwadau dŵr preifat heb unrhyw brofiad blaenorol.

Yn gyffredinol, roedd y dulliau a oedd yn cael eu defnyddio i gludo a storio samplau yn cael eu llywio i raddau helaeth gan heriau ymarferoldeb lleol. Yn aml, byddai hyn yn golygu na ellid sicrhau cynrychioldeb samplau yn hyderus rhwng y pwynt casglu a'r gwaith dadansoddi.

Mae'r gofyniad i awdurdodau lleol gynnal safonau samplu rheoleiddiol drwy gynllun ISO/IEC 17024 achrededig bellach yn sicrhau bod cyflenwadau dŵr preifat yn cael eu samplu mewn ffordd gyson ac yn cydnabod arferion da. Mae hefyd yn sicrhau nad oes risg y bydd samplau'n anghynrychioliadol wrth gael eu casglu, eu cludo a'u storio. Fodd bynnag, nid yw pob awdurdod lleol yn cydymffurfio â'r safonau samplu ar lefel genedlaethol eto, ac mae'r broses yn dal i fynd rhagddi.

4. PFAS

Bydd pob awdurdod lleol wedi cael llythyr gan Asiantaeth yr Amgylchedd ym mis Tachwedd 2021 ynglŷn â gwaith monitro amgylcheddol ar sylweddau perffloroalcyl a pholyffloroalcyl (PFAS) mewn dŵr daear. Mae'r gwaith monitro gwyliadwriaeth rheolaidd hwn wedi canfod y sylweddau hyn mewn rhai lleoliadau lle y ceir cyflenwad dŵr preifat ar grynodiadau sy'n uwch na'r trothwyon a nodir yng nghanllawiau'r Arolygiaeth yn y **Llythyr Gwybodaeth ar PFAS**. Yn yr achosion hyn, ysgrifennodd Asiantaeth yr Amgylchedd at berchnogion y cyflenwadau yn eu hysbysu am y canfyddiadau. Roedd canllawiau'r Arolygiaeth yn argymhell na ddylai'r cemegion PFOS (sylffonad perfflorooctan) na PFOA (asid perfflorooctanoig), sy'n perthyn i grŵp PFAS o sylweddau, fod yn bresennol mewn dŵr yfed uwchlaw crynodiad o 0.1 microgram y litr ($\mu\text{g/l}$). Cyhoeddwyd canllawiau pellach ym mis Hydref 2021, sy'n cymhwyso'r safon ragofalus hon at yr holl PFAS.

Er bod y canllawiau hyn wedi'u hanelu at gwmnïau dŵr, hoffem dynnu sylw awdurdodau lleol at y disgwyliadau ynghylch cyfathrebu rhyngoch chi, cwmnïau dŵr a rhanddeiliaid eraill, yn ogystal â rhannu gwybodaeth a data, yn enwedig ar gyfer asesiadau risg.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am PFAS a'r canllawiau diweddaraf arnynt, edrychwch ar ein tudalen we **Risk Assessment tools and tips**.

5. Adolygu gwefannau

Yn ystod 2020, cynhaliodd yr Arolygiaeth adolygiad o wybodaeth am gyflenwadau dŵr preifat ar wefannau 333 o awdurdodau lleol. Y nod oedd meithrin gwell dealltwriaeth o amrywioldeb a defnyddioldeb y wybodaeth hon. Cyhoeddwyd y canfyddiadau yn Adroddiad ar yr Effaith ar Ddefnyddwyr (CIR) 2020. Yn gryno, roedd y wybodaeth hon yn amrywio'n fawr o ran ansawdd, y ffordd yr oedd wedi'i chyflwyno, a pha mor hawdd oedd dod o hyd iddi. Nid oedd hyn o reidrwydd yn gysylltiedig â nifer y cyflenwadau yn ardal pob awdurdod lleol unigol, ond roedd y wybodaeth yn fwy helaeth ar y cyfan mewn ardaloedd lle roedd mwy o gyflenwadau dŵr preifat. Fodd bynnag, o'r 333 o wefannau yr edrychwyd arnynt, nid oedd 40 (12%) yn cynnwys unrhyw wybodaeth o gwbl am gyflenwadau dŵr preifat, er ei bod yn hysbys bod cyflenwadau'n bresennol yn ardaloedd yr awdurdodau lleol hyn.

Ym marn yr Arolygiaeth, dylai perchnogion a defnyddwyr cyflenwadau feddu ar ddigon o wybodaeth i allu cadw eu cyflenwad yn iach a'u dŵr yn ddiogel, a deall y fframwaith o weithgareddau y mae'n rhaid iddynt ryngweithio ag ef, sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth. Mae sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd hefyd yn fuddiol am ei bod yn golygu y bydd llai o ymholiadau gan bobl sy'n chwilio amdani. Cynhaliwyd ail adolygiad yn 2021 felly, gyda'r nod o gasglu gwybodaeth ychwanegol am gywirdeb gwybodaeth am ofynion rheoliadol.

5.1 Crynodeb o ganfyddiadau cyffredinol archwiliadau 2020 a 2021

- Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn cynnwys gwybodaeth am gyflenwadau dŵr preifat ar eu gwefannau, p'un a oes ganddynt gyflenwadau dŵr preifat yn eu hardal ai peidio. Lle mae'r wybodaeth hon ar gael, mae'n amrywio'n fawr ac yn anghyson o ran cynnwys o un awdurdod lleol i'r llall. Mewn rhai achosion, mae'r Rheoliadau wedi cael eu dehongli'n anghywir gan yr awdurdod lleol ac nid yw'r wybodaeth bob amser yn gyson â'r ddeddfwriaeth bresennol.
- Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn cyhoeddi'r ffioedd a godir ganddynt am gyflenwadau dŵr preifat, nac yn ei gwneud yn amlwg bod costau cysylltiedig. Weithiau, bydd y wybodaeth hon i'w gweld mewn rhan wahanol o wefan y cyngor, a gall fod yn anodd dod o hyd iddi. Mewn rhai achosion, mae'r ffioedd am weithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflenwadau dŵr preifat yn amlwg, ond nid yw'r manylion yn dryloyw, sy'n golygu bod angen i'r defnyddiwr gysylltu â'r cyngor i gael gwybod beth yw'r costau.

Dŵr Yfed 2021 Cyflenwadau dŵr preifat yng Nghymru

- Ychydig iawn o'r gwefannau sy'n adlewyrchu neu'n hyrwyddo'r gofyniad am reoleiddio seiliedig ar risg, gyda'r pwyslais ar samplu gan mwyaf, a hynny'n aml heb unrhyw sôn am bwysigrwydd asesu risg cyflenwadau na'r gofyniad i wneud hynny (heblaw cyflenwadau i anheddau unigol diddeiliad) er mwyn atal a lliniaru'r risg o halogi mewn modd rhagweithiol.
- Mae rhai gwefannau'n awgrymu y gall awdurdod lleol arfer disgrisiwn ynglŷn â'i gamau gweithredu, ond mae'r Rheoliadau'n eu gwneud yn orfodol.

Gwelodd yr Arolygiaeth fod dwy wefan yn rhagorol o ran cynnwys, ansawdd a chywirdeb, a'r ffordd y caiff y wybodaeth ei chyflwyno. Mae'r wybodaeth yn gyfredol ac yn cynnwys cyngor cynhwysfawr a defnyddiol i ddefnyddwyr ar reoli eu cyflenwadau. Mae'r ffioedd y mae'r awdurdod lleol yn eu codi am weithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflenwadau dŵr preifat yn dryloyw ac mae'n hawdd dod o hyd iddynt: Y gwefannau awdurdodau lleol hyn yw:

- Cyngor Dosbarth De Ardal y Llynnoedd: [Private water supplies \(southlakeland.gov.uk\)](https://www.southlakeland.gov.uk)
- Cyngor Wiltshire: [Private water supplies – Wiltshire Council](https://www.wiltshire.gov.uk)

Mae gan y ddau awdurdod lleol lawer o gyflenwadau preifat yn eu hardaloedd. Felly, mae'r wybodaeth a roddir yn cyd-fynd â faint o ddiddordeb posibl sydd gan ddefnyddwyr a rhanddeiliaid eraill yn yr ardaloedd hyn.

O ran yr awdurdodau lleol hynny sydd â llai o gyflenwadau yn eu hardaloedd, cred yr Arolygiaeth fod y wefan ganlynol yn cynnig meincnod ardderchog:

Cyngor Caerfaddon a Gwlad yr Haf: [Private Water Supplies | Bathnes](https://www.bathnes.gov.uk)

Manylion Adolygiad 2021

Tabl 5.1

Trefn sgorio gwefannau

Sgôr	
1 = Gwael	Mae'r cynnwys yn brin ac nid yw'n rhoi llawer o wybodaeth
2 = Anfoddhaol	Nid oes llawer o gynnwys ond mae'n gywir i raddau helaeth
3 = Boddhaol	Mae'r cynnwys yn ddigonol, ond nid yw'n gywir bob amser
4 = Da	Mae'r cynnwys yn sylweddol ac yn llawn gwybodaeth, ond nid yw'n gywir bob amser
5 = Rhagorol	Mae'r cynnwys yn helaeth, yn llawn gwybodaeth, ac yn gywir ar y cyfan

Dewiswyd rhwng 8 a 10 gwefan awdurdod lleol i'w harchwilio ym mhob un o'r rhanbarthau canlynol yn Lloegr: Gogledd, Canolbarth a Dwyrain, Gorllewin, De. Archwiliwyd gwefannau pob awdurdod lleol yng Nghymru.


Tabl 5.2

Niferoedd y gwefannau a adolygwyd

	Nifer y gwefannau a adolygwyd
Lloegr	36 allan o 352
Cymru (pob awdurdod lleol yng Nghymru)	22 allan o 22
Cyfanswm	58

Ffigur 5.1

Cyfrannau graddau'r gwefannau (Cymru a Lloegr).



Yng Nghymru, nid oedd gwybodaeth am gyflenwadau dŵr preifat ar wefannau saith awdurdod lleol, sef:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir Ceredigion, Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Castell-nedd Port Talbot.

Prif ganfyddiadau – Cymru:

- Nid oedd unrhyw anghywirdebau ar chwech o'r 22 (28.6%) o wefannau.
- Nid ystyriwyd bod yr un wefan yng Nghymru yn rhagorol, ond roedd y mwyafrif yn foddhaol.
- Gan mwyaf, roedd y rhai ag anghywirdebau'n cyfeirio at hen reoliadau neu ganllawiau cysylltiedig.

Tabl 5.3

Engbreiffiau o anghywirdebau (Cymru a Lloegr):

Anghywirdeb	Canllawiau
Yr ALI sy'n gyfrifol am fonitro pob cyflenwad.	Er mai'r cyngor sy'n gyfrifol am gadw cofnodion o bob cyflenwad yn ei ardal, nid yw'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gyflenwadau i anheddau unigol diddeiliad gael eu monitro.
Mae angen asesiad risg a gwaith samplu ar gyfer pob cyflenwad.	Nid yw hyn yn wir am bob cyflenwad. Nid oes angen cynnal asesiad risg na gwneud gwaith monitro ar gyfer cyflenwadau i anheddau unigol diddeiliad.
Mae profi eich cyflenwad dŵr yn rheolaidd yn sicrhau bod y dŵr yn ddiogel.	Nid yw profi yn gwneud y dŵr yn ddiogel. Mae'n bosibl i brofion gadarnhau bod y dŵr yn ddiogel ar adeg benodol mewn amser, ond nid yw canlyniad boddhaol o reidrwydd yn gyfystyr â thystiolaeth bendant bod cyflenwad yn ddiogel drwy'r amser, neu'n rhydd o bob halogydd posibl.
<u>Mae'n bosibl</u> y byddwn yn cynnal ymchwiliad er mwyn canfod achos y methiant.	Mae Rheoliad 16 (18 yng Nghymru) yn mynnu bod yn rhaid cynnal ymchwiliad.
Caiff gwaith samplu ei deilwra yn unol â'r risg sydd dan sylw.	Mae hyn yn wir am gyflenwadau rheoliad 8, ond mae'r gofynion samplu ar gyfer rheoliad 9, 10 ac 11 (Cymru yn unig) yn dibynnu ar y math o gyflenwad. Gellir gwneud gwaith samplu ychwanegol sy'n seiliedig ar risg.
Cawn ein hannog i gyd-drafod â'r person sy'n gyfrifol am y cyflenwad preifat er mwyn ceisio datrys problem yn anffurfiol.	Nid yw'r rheoliadau yn caniatáu cyd-drafod anffurfiol os yw'r dŵr yn halog neu'n achosi perygl posibl i iechyd pobl. Nodir y gofynion yn rheoliad 16 (18 yng Nghymru).
Mae'r Rheoliadau'n pennu uchafswm ffioedd (mewn perthynas ag awdurdod lleol yn Lloegr).	Nid yw hyn wedi bod yn wir yn Lloegr ers 2018.
Mae'r Rheoliadau'n rhoi canllawiau.	Nid yw rheoliadau a chanllawiau yr un peth â'i gilydd. Mae canllawiau'n cynnig dehongliad o'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoliadol a nodir ganddi.
Gallwch brofi [eich cyflenwad preifat] eich hun mewn labordy preifat.	Er bod hyn yn gywir i ryw raddau, nid yw'r wefan yn esbonio bod yn rhaid i waith monitro rheoleiddiol fod wedi'i achredu a chael ei wneud gan yr awdurdod lleol neu ei ddarparwr gwasanaeth cymwys dynodedig.

Dyweddodd sawl awdurdod lleol fod yn "rhaid" i gyflenwadau dŵr preifat fod wedi'u cofrestru â'r awdurdod lleol. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn nodi'n benodol ei bod yn ofynnol i berchnogion, defnyddwyr neu unrhyw berson perthnasol gofrestru cyflenwad dŵr preifat. Os na fydd person yn cofrestru cyflenwad, ni ellir cymryd camau gorfodi ac ni fydd wedi cyflawni trosedd. Felly, rhaid

cwestiynu'r defnydd o'r gair "rhaid" yn y cyd-destun hwn. Fodd bynnag, mae'n ofyniad rheoliadol i awdurdodau lleol wneud a chadw cofnodion o'r holl gyflenwadau dŵr preifat yn eu hardaloedd. Am y rheswm hwn, mae cofrestru cyflenwadau yn ddefnyddiol a dylid annog hynny.

Os daw awdurdod lleol i wybod am gyflenwad dŵr preifat nad yw wedi'i gofnodi ganddo ar hyn o bryd, gall ddefnyddio pwerau gorfodi i gyflwyno hysbysiad adran 85 er mwyn cael y wybodaeth sydd ei hangen arno, a/neu hysbysiad adran 86 er mwyn cael mynediad at y dibenion hynny os bydd angen.

Y camau nesaf i awdurdodau lleol

Caiff awdurdodau lleol eu hannog i adolygu a diweddarau eu gwefannau yn sgil canfyddiadau'r adolygiad hwn. Awgrymir y dylid cynnwys y pynciau allweddol canlynol ar y tudalennau hyn o leiaf:

- Diffiniad o gyflenwad dŵr preifat yng nghyd-destun y cwmpas rheoleiddiol. Dylai gynnwys disgrifiad o'r hyn sy'n gwneud cyflenwadau dŵr preifat yn wahanol i gyflenwad cyhoeddus, gan gyfeirio'n arbennig at risgiau posibl i ansawdd dŵr.
- Dylai cyflenwad gyrraedd y safonau ansawdd a ragnodir yn y rheoliadau.
- Rhaid i gyflenwad fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Os nad yw'n ddiogel, mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i gyflwyno hysbysiad yn mynnu bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud.
- Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol, fel rheoleiddiwr, yw cyflawni dyletswyddau mewn perthynas â'r uchod.
- Disgrifiad o gategorïau o gyflenwadau dŵr preifat a'r ffordd y mae'r rhain yn gysylltiedig â gweithgareddau awdurdodau lleol a'r ffioedd cysylltiedig.
- Rhestr ffioedd dryloyw.
- Cyngor a chanllawiau ar reoli a chynnal a chadw (gan gynnwys trefniadau wrth gefn ar gyfer toriadau yn y cyflenwad a gynlluniwyd ac nas cynlluniwyd).

Os bydd lle yn brin neu os nad ystyrir bod gwybodaeth helaeth yn flaenoriaeth ar gyfer ardal benodol, gallai awdurdod lleol gynnwys dolen i wefan cyflenwadau dŵr preifat yr Arolygiaeth yn lle hynny, yn enwedig os nad oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd.

Atodiad

A – Ymchwil a phrosiectau arbennig

Adnodd ar-lein cyflenwadau dŵr preifat

Yn 2012, datblygodd yr Arolygiaeth asesiad risg Excel er mwyn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o dan reoliad 6 (asesiadau risg) o'r Rheoliadau. Mae'r adnodd hwn wedi cael ei addasu ers hynny, ac mae'r Arolygiaeth wedi datblygu fersiynau eraill mewn ymateb i adborth gan awdurdodau lleol. Gwnaeth y newidiadau hyn symleiddio'r broses asesu risg ar gyfer cyflenwadau llai a mathau penodol o gyflenwadau, megis cyflenwadau rheoliad 8. Yn ystod 2021, cafodd adnodd newydd ar y we, a ddyluniwyd i gymryd lle'r adnoddau Excel, ei dreialu gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r adnodd yn hwyluso'r gwaith o gofnodi canlyniadau asesiadau risg a rheoli'r ffordd y caiff mesurau lliniaru eu cyflawni. Ar gyfer data samplau, mae'n cynnig ffordd o fewnbynnu canlyniadau samplau unigol â llaw, yn ogystal â chyfleuster swmp-lanlwytho lle y gall awdurdodau lleol lanlwytho eu manylion data eu hunain drwy borth diogel. Cafodd y cyfleuster hwn ei ddefnyddio ar gyfer manylion data 2021. Er gwaethaf llawer o heriau technegol mewn perthynas â'r cyfleuster swmp-lanlwytho newydd, cafwyd ymateb da i'r manylion data ar gyfer 2021, gydag ond pedwar yn llai o gyflwyniadau na'r flwyddyn flaenorol. Hoffem ddiolch i bawb am eu hamynedd a'u cefnogaeth yn ystod y cyfnod hwnnw.

Er mwyn gwella ein dulliau o gyfathrebu ag awdurdodau lleol ymhellach, rydym wedi sefydlu tîm yn Microsoft Teams ar gyfer cyflenwadau dŵr preifat. Mae gwahoddiad i holl bersonél awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda chyflenwadau preifat ymuno. Mae'n grŵp agored, felly gall pawb weld y manylion cyswllt. Os hoffech ymuno â'r tîm, e-bostiwch dwi.enquiries@defra.gov.uk.

Rydym yn bwriadu defnyddio'r tîm hwn i roi hyfforddiant ar yr adnodd newydd cyn iddo gael ei gyflwyno i bob awdurdod lleol yn y dyfodol.


Cyfrifiannell profion

Datgelodd manylion data 2021 sawl problem systematig gyda'r data. Ymhlith y rhain roedd cyfeintiau'n cael eu cofnodi gan ddefnyddio'r unedau anghywir, gan arwain at y drefn maint anghywir (llawer rhy fawr fel arfer) a dwyreiniadau a gogleddiadau wedi'u cofnodi'n anghywir. Y testun pryder mwyaf i'r Arolygiaeth oedd ei bod yn ymddangos bod diffyg dealltwriaeth o'r gofynion ar gyfer paramedrau samplu, yn arbennig pa baramedrau a pha mor aml bob blwyddyn. Er mwyn helpu awdurdodau lleol, mae'r Arolygiaeth wedi creu 'cyfrifiannell profion' sydd i'w gweld ar ein **gwefan**. I ddefnyddio'r gyfrifiannell, bydd angen i ddefnyddwyr wybod beth yw'r math o gyflenwad, er enghraifft cyflenwad rheoliad 9, a maint y cyflenwad mewn metrau ciwbig. Wedyn, bydd y gyfrifiannell yn cyfrifo pa baramedrau y mae'n rhaid eu profi, a pha mor aml. Ceir opsiwn i ychwanegu unrhyw baramedr arall y gall fod angen ei brofi oherwydd canlyniadau asesiad risg y cyflenwad. Gyda'i gilydd, bydd hyn yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr faint o brofion y bydd angen eu cynnal bob blwyddyn. Wedyn, cyfrifoldeb awdurdodau lleol fydd penderfynu sut i drefnu nifer synhwyrol o ymweliadau â chyflenwadau bob blwyddyn. Mae'r Arolygiaeth yn gobeithio y bydd yr adnodd hwn yn ddefnyddiol, a byddai'n ddiolchgar am unrhyw adborth.

I ategu'r gyfrifiannell, rydym hefyd wedi llunio **canllawiau** ar baramedrau 'grŵp A a grŵp B' sy'n esbonio'r cysyniad a'r gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp. Bydd y canllawiau newydd hyn yn esbonio allbynnau'r gyfrifiannell profion.

B – Astudiaethau Achos

Mewn ymateb i adborth gan awdurdodau lleol ar CIR 2020, byddwn bellach yn cyhoeddi astudiaethau achos drwy gydol y flwyddyn ar ein tudalen we sydd â'r pennawd **Case studies**. Rydym hefyd wedi creu cyfleuster chwilio newydd ar y dudalen astudiaethau achos, fel y gellir chwilio drwy'r holl astudiaethau achos gan ddefnyddio geiriau allweddol.



C – Canllawiau

Rydym wedi cyflwyno ail gyfleuster chwilio sy'n chwilio drwy'r 'nodiadau gwybodaeth' sy'n ffurfio'r canllawiau ffurfiol i'r Rheoliadau. Darllenwch y canllawiau hyn os bydd angen eglurhad arnoch o unrhyw rai o ofynion y Rheoliadau. Os na allwch ddod o hyd i'r hyn sydd ei angen arnoch, cysylltwch â ni yn dwi.enquiries@defra.gov.uk.



ISBN: 978-1-911087-45-8